



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Effaith Amgylcheddol

Fepio



## Fêps Tafladwy

Mae **fêps tafladwy** wedi'u cynllunio i'w defnyddio unwaith ac yna eu taflu ar ôl ir e-hylif redeg allan. **Nid oes modd eu hail-lenwi na'u hailwefru** ac maent yn cynnwys deunyddiau fel **plastig, copr, rwber a batris lithiwm**, sy'n werthfawr ond yn anodd eu hailgylchu.

Ers **1 Mehefin 2025**, mae'n anghyfreithlon gwerthu neu gyflenwi fêps tafladwy yng Nghymru o dan *Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024* (mae gan bob gwlad yn y DU waharddiadau cyfatebol).

Nod y gwaharddiad yw lleihau **difrod i'r amgylchedd, gwastraff plastig, a risgiau tân** sy'n gysylltiedig â batris sydd wedi'u taflu.

Gellir gwaredu fêps tafladwy sy'n bodoli eisoes mewn modd cyfrifol, a dylid gwneud hynny. Am eu bod wedi'u dosbarthu fel Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE), ni ddylent gael eu rhoi mewn biniau cartref. Dylent gael eu hailgylchu trwy bwyntiau casglu cymeradwy neu gynlluniau dychwelyd.



# Fêps Tafladwy - Camau Gweithredu'r Llywodraeth

Oherwydd pryderon cynyddol ynghylch effaith **fêps untro ar iechyd pobl ifanc a'r amgylchedd**, cyflwynodd **Llywodraeth Cymru**, ynghyd â **Llywodraethau'r DU a'r Alban**, ddeddfwriaeth i **wahardd gwerthu a chyflenwi fêps tafladwy**.

Daeth y ddeddf newydd — sef *Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024* — i rym ar **1 Mehefin 2025** ac mae'n berthnasol i **gynhyrchion sy'n cynnwys nicotin a'r rhai nad ydynt yn cynnwys nicotin**.

Daeth y penderfyniad yn dilyn **ymateb hynod gadarnhaol gan y cyhoedd**, gyda bron **70% o rieni, athrawon, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac aelodau'r cyhoedd** yn cefnogi cyfyngiadau cryfach i ddiogelu iechyd a lleihau gwastraff.

Roedd y symudiad hwn yn rhan o nod ehangach Cymru i greu **dyfodol cynaliadwy, di-fwg** a lleihau niwed i blant, pobl ifanc a'r amgylchedd.

## Fêps Tafladwy


**Cynyddodd y defnydd o fêps tafladwy (untro) yn sydyn ymhlith pobl ifanc yn ystod y blynyddoedd diwethaf.**

**Yn ôl Arolwg “Use of E-Cigarettes Among Young People in Great Britain” ASH (2023), nododd 69% o’r bobl ifanc sy’n defnyddio sigarêts electronig ar hyn o bryd eu bod yn defnyddio dyfeisiau fepio tafladwy — roedd hynny i fyny o 8% yn unig yn 2021.**

**Credir bod y cynnydd cyflym hwn oherwydd bod fêps tafladwy yn rhatach, eu bod ar gael yn eang, ac yn aml yn cael eu marchnata mewn blasau a lliwiau deniadol, sy’n eu gwneud yn fwy hygyrch i bobl ifanc.**

**O fis Mehefin 2025 ymlaen, mae gwerthu a chyflenwi fêps tafladwy wedi’i wahardd yng Nghymru i helpu i fynd i’r afael â mynediad pobl ifanc iddynt, lleihau gwastraff, a chefnogi iechyd y cyhoedd.**

Math o e-sigarét sydd yn cael ei defnyddio amlaf, ymhlith pobl ifanc 11-17 oed yng Nghymru (2021-2023)



# Fêps Tafladwy

Ffeithiau am fêps tafladwy a'r amgylchedd:

- Canfu ymchwil o'r briff i fanwerthwyr, cynhyrchwyr a chynghorau ynghylch ailgylchu Fêps fod tua 5 miliwn o fêps tafladwy yn cael eu taflu bob wythnos yn y DU yn 2024 — sef digon i lenwi 22 cae pêl-droed.
- Roedd nifer y fêps tafladwy a gafodd eu taflu wedi cynyddu bedair gwaith rhwng 2022 a 2024, gan greu problem gynyddol o ran gwastraff a llygredd.
- Mae'r cynhyrchion hyn yn cynnwys plastigau, metelau a batris lithiwm sy'n anodd eu hailgylchu ac nad ydynt yn dadelfennu'n naturiol.
- Pan gânt eu taflu fel sbwriel, gall fêps ollwng cemegion niweidiol i'r pridd a'r dŵr, gan beri risgiau i fywyd gwyllt, bodau dynol a'r amgylchedd.
- Gall y batris lithiwm y tu mewn i fêps tafladwy achosi tanau os na chânt eu gwaredu'n gywir.
- Oherwydd yr effeithiau hyn, mae bellach yn anghyfreithlon gwerthu neu gyflenwi fêps tafladwy yng Nghymru (o 1 Mehefin 2025) o dan *Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024*.
- Mae'r gwaharddiad yn cefnogi nod Cymru o sicrhau dyfodol glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy.

**Mae gwybodaeth ynghylch sut i ailgylchu fêps a gwastraff trydanol arall yn ddiogel yn eich ardal ar gael ar y wefan [Recycle Your Electricals](#) .**

## Microplastigau

Mae dyfeisiau fepio yn cynnwys metelau a phlastigau a all gymryd blynyddoedd lawer i ddadelfennu.

Yn hytrach na dadelfennu, mae plastig yn troi'n "microplastigau" sy'n parhau i lygru'r amgylchedd, ein bwyd a'n dŵr yfed am flynyddoedd lawer.

Darnau bach o blastig sy'n llai na 0.5 cm yw microplastigau. Mae'r plastigau hyn yn dadelfennu'n araf, ond nid ydynt yn dadelfennu'n llwyr.

Dros amser mae microplastigau'n mynd yn ddigon bach i gael eu bwyta'n ddamweiniol gan bethau byw. Maent yn 'biogrynhai' mewn cadwyni bwyd oherwydd na ellir eu hysgarthu. Nid yw effeithiau'r cronïad hwn wedi'u deall yn llawn eto\*.



## Lithiwm

Mae lithiwm yn fetel ysgafn, meddal â dwysedd isel a geir mewn llawer o fatris.

Mae dyfeisiau fepio tafladwy yn cynnwys batris lithiwm a all, os cânt eu difrodi, beri perygl tân pan gânt eu taflu mewn gwastraff cyffredinol neu ailgylchu.

Mae lithiwm hefyd yn fetel gwerthfawr iawn, ond mae tunelli ohono'n cael eu taflu bob blwyddyn ac yn diweddu eu hoes mewn safleoedd tirlenwi neu losgyddion gwastraff.

Amcangyfrifodd Material Focus fod lithiwm sy'n werth 5,000 o fatris ceir trydan yn cael ei daflu mewn fêps bob blwyddyn.

Gellid ailwefru'r batris polymer lithiwm a ddefnyddir mewn rhai o'r fêps mwyaf poblogaidd 500 o weithiau pe bai'r cynnyrch wedi'i dylunio i ganiatáu ailwefru.



